

Cyngor Celfyddydau Cymru

# Polisi Amgylcheddol

Ionawr 2018



# Polisi Amgylcheddol Cyngor Celfyddydau Cymru

Cyngor Celfyddydau Cymru yw sefydliad swyddogol y wlad ar gyfer cyllido a datblygu ym maes y celfyddydau. Ein prif noddwr yw Llywodraeth Cymru. Rydym hefyd yn dosbarthu cyllid o'r Loteri Genedlaethol ac yn codi arian ychwanegol, lle gallwn, gan ffynonellau eraill yn y sector cyhoeddus a phreifat.

Gan gydweithio â Llywodraeth Cymru, rydym yn cynorthwyo ac yn hyrwyddo'r cyfraniad pwysig y mae'r celfyddydau yn ei wneud yng Nghymru.

Rydym yn glynu at egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn golygu ein bod yn ystyried effaith ein penderfyniadau a'n rhaglenni gwaith at y dyfodol, gan weithredu lle bynnag y gallwn mewn modd sy'n dangos ymwybyddiaeth o gynaliadwyedd a'r amgylchedd. Yn hynny o beth, anelwn at fodloni'r holl gyfreithiau a rheoleiddiadau sy'n berthnasol i agweddau amgylcheddol ein busnes, neu ragori arnynt. Rydym hefyd yn ceisio dylanwadu ar eraill ac annog perfformiad amgylcheddol da trwy gyfrwng ein prosesau penderfynu ar grantiau. Rydym yn canolbwyntio ar warchod yr amgylchedd, gwelliannau parhaus, monitro ac adolygu'r gweithgareddau hynny sydd wedi eu nodi fel rhai sy'n cael effaith negyddol ar yr amgylchedd.

Bydd Cyngor Celfyddydau Cymru yn defnyddio dulliau ataliol wrth ymdrin â phryderon amgylcheddol. Byddwn yn cynllunio ac yn defnyddio technolegau a gweithdrefnau gweithredu fydd yn arddangos yr ymrwymiad hwn.

Mae bodloni ein hymrwymiaidau amgylcheddol yn gyfrifoldeb corfforaethol ac yn berthnasol i bob aelod o'r Cyngor, staff, asiantwyr a'r rheiny sy'n cael eu penodi.

Mae Uwch Dîm Arweinyddiaeth y Cyngor yn gyfrifol am hyrwyddo a monitro'r polisi hwn trwy ein Gweithdrefnau Rheoli Perfformiad. Caiff gwybodaeth monitro briodol ei chynhyrchu i gefnogi hyn.

Byddwn yn rhoi gwybod i bob aelod o staff a phartïon perthnasol eraill am y polisi hwn (a gweithdrefnau perthnasol). Cynigir hyfforddiant i'r rheini y mae eu cyfrifoldebau yn cael effaith uniongyrchol ar faterion amgylcheddol.

Bydd cydymffurfio â'r polisi yn cynnwys y gweithgareddau canlynol, ond nid y rhain yn unig:

- Atal a lleihau llygredd
- Cydymffurfio â rhwymedigaethau sy'n ymwneud â'n Agweddau Amgylcheddol
- Prynu (caffael) offer a nwyddau, nwyddau argraffu a chyhoeddiadau
- Cael gwared ar offer a deunyddiau gwastraff
- Defnydd o ynni
- Teithio
- Rheoli grantiau

Mae'r Cyngor wedi cyflwyno meini prawf o ran cynaliadwyedd yn eu cytundebau cyllido Portffolio Celfyddydau Cymru. Mae hyn yn golygu y bydd gofyn iddynt adrodd ar berfformiad amgylcheddol fel rhan o'n monitro blynyddol.

Bydd grantiau cyfalaf yn mynnu bod targedau amlycheddol penodol yn cael eu gosod ar brosiectau adeiladu.

Teitl		Polisi Amgylcheddol
Rhifyn		5
Cytunwyd	Mawrth 2015	Uwch Dîm Rheoli
Diweddarwyd ddiwethaf	Mawrth 2017	Rheolwr Cyfleusterau a Chaffaeliad/UDA
Adolygwyd ddiwethaf	Rhagfyr 2017	Rheolwr Cyfleusterau a Chaffaeliad/ Archwiliad Mewnol
Adolygiad Nesaf (Blynyddol)	Rhagfyr 2018	Rheolwr Cyfleusterau a Chaffaeliad/ Archwiliad Mewnol